




# NODYN BRIFFIO AR YR ECONOMI YMWELD YNG NGWYNEDD AC ERYRI





© Hawlfrant y Geron Gwasso Cymru  
© Crown Copyright. Visit Wales

# 1. Beth sy'n cael ei drafod?

- Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn adolygu eu blaenoriaethau a'u cynlluniau ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal.
- Cychwynnodd adolygiad o'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan yn 2018 gyda chyfres o weithdai ar gyfer y sector twristiaeth a chynrychiolwyr cymunedau.
- Yn sgil Covid-19 bu pwysau eithriadol ar gymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri gyda nifer ymwelwyr di-gynsail a'r ardal. Mae'r cyfnod hwn wedi amlygu rhai materion y mae angen ymateb iddynt er mwyn cefnogi economi ymweld **cynaliadwy** yn yr ardal.
- Ym mis Tachwedd 2021 fe arwyddodd Gyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Gytundeb o Ddealltwriaeth. Amcan y Cytundeb o Ddealltwriaeth yw *cydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu Gweledigaeth ac Egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.*



## 2. Beth ydi economi ymweld cynaliadwy?

- Mae Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig (UNWTO) yn diffinio twristiaeth cynaliadwy fel:
- *“Twristiaeth sy’n cymryd llawn ystyriaeth o’i effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac i’r dyfodol, gan ymateb i anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a chymunedau lleol”.*
- Mae gan yr UNWTO dri piler sy’n diffinio twristiaeth cynaliadwy:
  1. Defnydd gorau o adnoddau amgylcheddol sy’n ran allweddol o ddatblygiad twristiaeth
  2. Parchu hynodrwydd cymdeithasol-ddiwylliannol cymunedau
  3. Sicrhau gweithgaredd economaidd cynaliadwy a hir-dymor a buddion cymdeithasol-economaidd i bawb
- Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi ystyried diffiniad y UNWTO a’i addasu i’r ardal hon. Trwy ddatblygu egwyddorion economi ymweld cynaliadwy newydd i Wynedd ac ardal Parc Cenedlaethol Eryri, bwriedir mynd i’r afael â rhai o brif bryderon rhai o’n cymunedau a hybu cydbwysedd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Yn draddodiadol mae gwerth twristiaeth i’r ardal wedi ei fesur ar sail ei werth i’r economi, nifer y swyddi yn y sector a nifer y cwmnïau / atyniadau. Er bod y gwerth yma wedi dangos cynnydd dros y ddegawd ddiwethaf, mae angen mesur effaith twristiaeth mewn dull mwy cytbwys sy’n ystyried ei effaith ar gymunedau, yr amgylchedd ein iaith a’n diwylliant lleol.




© Hawfrainc, Goron Cross, Cymru  
© Crown Copyright, Visit Wales

### 3. Pam ein bod angen gweithredu rŵan?

- Mae Cynllun Eryri yn adnabod yr angen am Gynllun Twristiaeth Cynaliadwy.
- Mae dyletswydd arnom i warchod cymunedau, amgylchedd a diwylliant yr ardal.
- Mae Cynllun Gwynedd yn blaenoriaethu cynllun i sicrhau bod busnesau a chymunedau Gwynedd yn elwa o'r ymwelwyr sy'n dod i'r ardal a datblygu Cynllun Adfywio i Wynedd.
- Mae Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru'n adnabod yr angen i ddatblygu cynllun i reoli ymwelwyr a'r ardal.
- Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Penllyn a'r Sarnau yn rhoi blaenoriaeth i reoli twristiaeth yn gynaliadwy.
- Amlygodd adolygiad Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd gyfleon a bygythiadau newydd i'r dyfodol sydd angen ymateb iddynt.
- Amlygodd Covid yr angen i ymateb mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer y dyfodol er mwyn gwarchod rhinweddau arbennig yr ardal a'n cymunedau.
- Mae cyfleon cydweithio newydd yn codi a chyfle i ddysgu o brofiadau ardaloedd eraill.
- Mae data yn amlygu'r angen i gael cydbwysedd gwell yn yr economi ymweld ac o fewn yr economi'n gyffredinol yn ardal Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.

## 4. Beth ydi'r ystadegau twristiaeth yn yr ardal\*?



Gweithlu Cyfartalog  
mewn blwyddyn:

**18,244**




Nifer Darparwyr  
awyr agored:

**100**



Nifer  
Atyniadau:

**200**



Nifer  
ymwelwyr  
2019:

**7.8m**




Gwerth i'r  
Economi  
2019:

**£1.35bn**



Boddhad  
cwsmer

**80%\*\***



Diwrnodau  
aros 2019:

**23.93m**



Nosweithiau  
aros 2019:

**20.10m**

\*Ffigyrau Adolygiad STEAM 2019

\*\* Adolygiad ymwelwyr Croeso Cymru - Cyngor Gwynedd Beaufort Research 2019



## 5. Beth yw'r prif faterion sy'n codi yn yr ardal?

- Pwysau ar ardaloedd gwledig a gwasanaethau cyhoeddus e.e. meysydd parcio, biniau, ffyrdd, ayyb.
- Covid wedi creu tensiynau mewn rhai ardaloedd gyda niferoedd ymweld digynsail.
- Lefelau cyflogau a chyflogaeth tymhorol o fewn y sector twristiaeth.
- Diffyg amrywiaeth yn yr economi wledig a gor-ddibyniaeth posib ar dwristiaeth
- Teimladau negyddol o fewn i rai cymunedau ac ardaloedd, ond gall bod cyfleon os gweithredir yn wahanol.
- Effaith posib ar yr iaith a chymunedau a'r amgylchedd.
- Angen Mesuryddion gwell i fesur unrhyw effeithiau negyddol a chadarnhaol.
- Cyfle i blethu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i ddatblygiad Cynlluniau Adfywio Ardal ar draws Gwynedd.

# 6. Beth yw ymateb Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri?

Mae'r Cyngor a'r Parc yn datblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 gyda'r weledigaeth ganlynol:

*Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri*

Mae'r ddau gorff wedi ail-ddiffinio diffiniad y UNWTO ac wedi cytuno ar yr Egwyddorion Economi Ymweld Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri:

1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais

Mae is-egwyddorion hefyd wedi eu datblygu i lywio blaenoriaethau'r dyfodol:

## **Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth**

- Economi ymweld ym mherchnogaeth ein cymunedau gyda phwyslais ar falchder bro
- Economi ymweld sy'n arweinydd mewn Treftadaeth, Iaith, Diwylliant ac Awyr Agored

## **Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd**

- Economi ymweld sy'n parchu ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig ac yn ystyried goblygiadau datblygiadau'r economi ymweld a'r ein hamgylchedd heddiw ac i'r dyfodol
- Economi ymweld sy'n arweinydd mewn datblygiadau ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel.

## **Sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfantais**

- Economi ymweld sy'n sicrhau bod isadeiledd ac adnoddau'n cyfrannu at lesiant y gymuned trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n ffynnu er lles pobl a busnesau Gwynedd ac sy'n cynnig cyfleon cyflogaeth o ansawdd i bobl leol trwy'r flwyddyn
- Economi ymweld sy'n hyrwyddo perchnogaeth leol, yn cefnogi cadwyni cyflenwi a chynnyrch lleol

## 7. Beth yw'r farn hyd yma?

Mae Nifer o weithdai wedi eu cynnal i weld sut fyddai Economi Ymweld Cynaliadwy'n edrych yng Ngwynedd ac Eryri. Mae'r prif negeseuon wedi eu crynhoi isod:

**Beth ydy'r prif heriau a chyfleoedd er mwyn cyrraedd economi ymweld cynaliadwy yn y dyfodol?**

Her Adnoddau	Cyfle i Ymestyn y tymor	Iaith, Diwylliant, treftadaeth – cyfle i ddod a buddion i gymunedau. Her eu diogelu.
Cyfle i addysgu a datblygu sgiliau ymysg pobl leol – creu gyrfa	Her gormodedd mewn rhai ardaloedd.	Cyfle i gael cydbwysedd os yn gweithredu'n gynaliadwy. Cyfle i gymunedau
Heriau Newid Hinsawdd	Her a Chyfle i gydlynu partneriaid	Cyfleon i'r trydydd sector a chymunedau
Cyfle / her newid polisiau Cynllunio a chartrefi i bobl leol	Cyfle i ledaenu pobl o ardaloedd sy'n rhy brysur	Peidio cosbi cymunedau trwy e.e. fesurau parcio ychwanegol
Angen addysgu ymwelwyr am rinweddau arbennig yr ardal	Cyfle i reoli ymwelwyr yn hytrach na marchnata'r ardal	Cyfle i gael gwell isadeiledd e.e. trafndiaeth / toiledau / biniau ayb i bawb.

**Pa bolisiau / gweithgareddau sydd angen eu datblygu a blaenoriaethu?**

Polisi i ddod a buddion twristiaeth i gymunedau	Gefeillio cymunedau gydag atyniadau	Angen polisiau i ddatblygu trafndiaeth gynaliadwy o reffeniw twristiaeth
Hybu defnydd o iaith, diwylliant a hanes yr ardal	Safle Treftadaeth Byd	Marchnata cyrchfan cyfrifol ac ymweliad cyfrifol
Hyfforddiant i ddatblygu gyrfa yn y maes	Polisiau cynllunio sy'n cefnogi cymunedau lleol a rheoli ail-gartrefi / airbnb	Rheoli Cartrefi Modur
Angen codi treth ar ymwelwyr i'r ardal	Arian treth twristiaeth i gefnogi cymunedau ac isadeiledd	Angen datblygu cynllun rheolaeth cyrchfan a sefydlu partneriaeth / corff atebol
Angen sicrhau bod yr cynaliadwyedd yn ganolog i bopeth – iaith, diwylliant, amgylchedd, treftadaeth a chymuned		



## Pa bartneriaid sydd angen bod yn trafod?

Angen llais cryf i gymunedau	Mentrau cymdeithasol	Cyrff diogelwch mynydd / môr ayb
Cyrff cenedlaethol e.e. Ramblers	Angen i ysgolion ac addysg fod yn ran o hyn	Pwysig bod hyn yn cynnwys pawb – cyhoeddus, cymunedol, preifat
Angen i gwmnïau lleol gael cyfleon cadwyni cyflenwi	Angen arweinyddiaeth glir a chorff cynrychioladwy.	Pencampwyr i hybu'r economi ymweld

## 8. Beth ydi'r camau nesaf?

<b>Ionawr a Chwefror 2022</b>	Sesiynau ymgynghori pellach
<b>Mawrth 2022</b>	Cymeradwyo Cynllun Strategol
<b>Ebrill – Mehefin 2022</b>	Datblygu mesuryddion newydd Datblygu Cynllun Gweithredu Economi Ymweld Cynaliadwy
<b>Gorffennaf 2022</b>	Lansio



© Hafwrailt y Goorn, Creso Cymru  
© Crown Copyright Visit Wales

## 9. Gwybodaeth bellach?

[www.visitsnowdonia.info/cy/economi-ymweld-cynaliadwy-gwynedd-ac-eryri-2035](http://www.visitsnowdonia.info/cy/economi-ymweld-cynaliadwy-gwynedd-ac-eryri-2035)

## 10. Beth all ddod allan o'r Cynllun?

- O ddatblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy a Chynllun Gweithredu gobeithir creu ymateb ar y cyd er mwyn cael y gorau i gymunedau, busnesau a rhinweddau arbennig Gwynedd ac Eryri o ymwelwyr yn y dyfodol.
- Bydd datblygu mesuryddion newydd i fesur effaith twristiaeth yn ein caniatáu i weld mewn ffordd llawer mwy effeithiol effaith yr economi ymweld ar gymunedau a rhinweddau arbennig yr ardal ac ymateb i hynny.
- Bydd y Cynllun yn dylanwadu ar bolisiâu eraill Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid yn y maes cynllunio, rheoli cyrchfan, rheoli'r amgylchedd, hyfforddiant a sgiliau, adfywio ayb.
- Bydd Cynllun Strategol a Chynllun Gweithredu wedi ei flaenoriaethu yn agor drysau at arian Llywodraethau Prydain a Chymru a chronfeydd ariannu eraill.